

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

Cofnodion cyfarfod dydd lau 16 Chwefror 2023

Aelodau:

Lindsay Foyster	Cadeirydd ac aelod anweithredol
Adrian Crompton	Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC)
Alison Gerrard	Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol
Anne Beegan	Aelod-gyflogai etholedig
David Francis	Aelod anweithredol ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol (UGA)

Ymddiheuriadau:

Elinor Gwynn	Aelod anweithredol
Ian Rees	Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Yn bresennol:

Ann-Marie Harkin	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio (EDAS)
Anne-Louise Clark	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid (EDCC)
Kevin Thomas	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol (EDCS)
Katherine Drysdale	Ysgrifennydd y Bwrdd (cofnodion)
Ceri Hughes	Rheolwr Rhaglen Newid (eitem 9)
Nicola Evans	Pennaeth Cyllid (eitem 10)
Tom Haslam	Rheolwr Archwilio Perfformiad DaChA (Datblygu a Chanllaw Archwilio) (eitem 11)

Yn Arsylwi:

Adam Marshall	Arweinydd Archwilio
Darren Griffiths	Rheolwr Archwilio
Gareth Lucey	Rheolwr Archwilio
Helen Goddard	Rheolwr Archwilio
Jo Austin	Partner AD
Mark Jeffs	Rheolwr Archwilio

Eitem	Agenda
1	Croeso gan y cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldebau
2	Datganiadau o fuddiant
3	Adolygiad o gofnodion: Cyfarfodydd y Bwrdd 24 Tachwedd 2022 a 26 Ionawr 2023
4	Adolygiad o'r traciwr gweithredu
5	Adroddiad y Prif Weithredwr a'r Archwilydd Cyffredinol
6	Y diweddaraf gan y cadeirydd
7	Adroddiad gan y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol 17 Ionawr 2023
8	Adroddiad gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 13 Rhagfyr 2022 a 27 Ionawr 2023
9	Cynllun Blyneddol Drafft a Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2023-24
10	Adroddiad Perfformiad Integredig Chwarter 3

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Cofnodion cyfarfod dydd Iau 16 Chwefror 2023

Eitem	Agenda
11	Contract Monitro Ansawdd Archwilio
12	Unrhyw fusnes arall
13	Adolygiad o'r flaenraglen waith
14	Adolygiad o'r cyfarfod
15	Dyddiad y cyfarfod nesaf: Busnes - Dydd Mercher 15 Mawrth 2023

Eitem	Cofnodion	Cam Gweithredu
Eitemau Sefydlog		
1	Croeso gan y cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldebau	
1.1	Croesawodd y Cadeirydd aelodau a'r rhai a oedd yn bresennol. Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Elinor Gwynn ac Ian Rees.	
1.2	Amlinellodd y Cadeirydd ofynion cworwm a nododd na fyddai'r cyfarfod yn absenoldeb Elinor ac Ian yn cwrdd â'r gofyniad i gael mwyafrif yr aelodau anweithredol yn bresennol. Yn unol ag arferion a fabwysiadwyd gan y Bwrdd a'u cadarnhau yn ei gyfarfod ar 8 Mehefin 2022, cynigiodd y byddai dau aelod-gyflogai, Adam a Darren yn arsylwi ar y cyfarfod ac na fyddent yn cymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau. Byddai hefyd yn gofyn i Adam a Darren adael y cyfarfod ar gyfer cadarnhau ei harfer o weithredu camau gweithredu'r Cadeirydd i gymeradwyo fersiwn gywir o'r Cynllun Ffioedd ar gyfer ei gosod, gan fod y penderfyniad hwn yn ymwneud â dogfen allanol allweddol.	
1.3	Byddai David Francis yn ysgrifennu blog y cyfarfod, gan ymgorffori negeseuon allweddol a nodwyd gan yr EDCC.	DF / EDCC
2	Datganiadau o fuddiant	
2.1	Nododd y Cadeirydd fod gan aelodau-gyflogai a'r holl staff a oedd yn bresennol fuddiannau rhagfarnus yn y strategaeth gyflog a fyddai'n cael ei hystyried yn eitem 9 (adroddiad y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol). Yn unol â hynny, byddai'n gofyn i'r holl staff adael y cyfarfod er mwyn i'r strategaeth gyflog gael ei hystyried yn breifat. Byddai'r EDCC yn aros i gyflwyno'r eitem ac yn cymryd cwestiynau a byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn aros i gofnodi'r drafodaeth.	
2.2	Nododd y Cadeirydd na fyddai'r cyfarfod â chworwm ar gyfer yr eitem honno, ac ni fyddai unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud. Oherwydd yr angen am benderfyniad cyflym ar y strategaeth i alluogi trafodaeth ar gyflog i symud ymlaen, cynigiodd y Cadeirydd weithredu yn dilyn y cyfarfod (o dan baragraff 54 o Gylch Gorchwyl y Bwrdd) i ymgysylltu â'r aelodau anweithredol a'r Prif Weithredwr drwy e-bost i ddod i benderfyniad ar y cyd pe byddai angen.	

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Cofnodion cyfarfod dydd lau 16 Chwefror 2023

Eitem	Cofnodion	Cam Gweithredu
3	Adolygiad o gofnodion: Cyfarfodydd y Bwrdd 24 Tachwedd 2022 a 26 Ionawr 2023	
3.1	Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion ei gyfarfodydd ar 24 Tachwedd 2022 a 26 Ionawr 2023 yn gofnodion cywir o'r cyfarfodydd priodol.	
4	Adolygiad o'r traciwr gweithredu	
4.1	Adolygodd y Bwrdd y traciwr gweithredu y byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn ei ddiweddarau.	Ysgrifennydd y Bwrdd
5	Adroddiad y Prif Weithredwr a'r Archwilydd Cyffredinol	
5.1	<p>Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr ei adroddiad a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd ynghylch y canlynol:</p> <p><u>Newid swyddfa Caerdydd</u></p> <p>Cynlluniwyd y gwaith o symud o Heol y Gadeirlan i Gwr y Ddinas i leihau unrhyw darfu ac fe fyddai'n digwydd rhwng 15 a 17 Mawrth, gyda'r swyddfa newydd ar gael i'w defnyddio o ddydd Llun 20 Mawrth.</p> <p><u>Panel staff y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol (TAG)</u></p> <p>Yn dilyn lefel uchel o ddiddordeb yn rôl y panel staff, roedd y Prif Weithredwr wedi penderfynu cylchdroi aelodaeth er mwyn caniatáu i'r holl ymgeiswyr gymryd rhan. Byddai chwe aelod ar y panel gyda thri aelod yn gadael a thri aelod newydd yn ymuno bob chwe mis - byddai hyn yn rhoi cyfnod o drawsgroesi er mwyn cael parhad ac yn caniatáu i bob aelod gymryd rhan ar y panel am flwyddyn.</p> <p><u>Sioeau teithiol</u></p> <p>Roedd pedair sioe deithiol wedi digwydd, gyda llawer yn bresennol ac roedd yn ymddangos eu bod wedi cael derbyniad positif. Roedd o leiaf un aelod o'r Bwrdd yn bresennol ym mhob sesiwn. Nododd y Bwrdd fod sesiwn y Cyfarwyddwr a Phenaeithiad y Gwasanaeth wedi cynnwys sgwrs ar ddull gweithredu ar y cyd o ran arweinyddiaeth.</p> <p><u>Gweithredu diwydiannol</u></p> <p>Digwyddodd y gweithredu diwydiannol gan aelodau'r PCS ar 1 Chwefror gan achosi ychydig iawn o darfu ac roedd mwy o streicio wedi'i drefnu gan y PCS ar gyfer 15 Mawrth 2023. Awgrymodd y bleidlais ddangosol gan Prospect fod ei aelodau o blaid gweithredu'n ddiwydiannol, ond nid oedd canlyniad y bleidlais ffurfiol wedi'i gyhoeddi. Roedd effaith ariannol ddyddiol gweithredu a oedd yn cynnwys aelodau Prospect wedi cael ei hasesu ond byddai'n dibynnu ar nifer y staff a'r rolau a oedd yn rhan o'r gweithredu. Nododd y Bwrdd y gallai hyn gael effaith berthnasol ar ein sefyllfa ariannol a byddai'r sefyllfa'n cael ei monitro'n ofalus.</p>	
5.2	Bu'r Bwrdd yn trafod y risg o fethu â recriwtio digon o staff i gyflawni'r dull archwilio newydd sy'n cydymffurfio â ISA 315. Esboniodd yr EDAS fod yr ELT wedi cytuno ar rolau ychwanegol a bod tua hanner wedi'u llenwi, gyda nifer o hyfforddeion wedi'u penodi'n llwyddiannus.	

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Cofnodion cyfarfod dydd Iau 16 Chwefror 2023

Eitem	Cofnodion	Cam Gweithredu
	Prin oedd y diddordeb allanol yn y rolau a hysbysebwyd a byddai'n parhau i weithio gydag AD i archwilio sut i ymdrin â'r farchnad. Roedd hi hefyd yn ystyried, gydag AD, a oedd modd talu staff am oriau ychwanegol o waith (pe baen nhw'n dymuno gwneud hynny) yn hytrach na chael amser i ffwrdd o'r gwaith yn gyfnewid am oriau ychwanegol a weithiwyd.	
5.3	Bu'r Bwrdd hefyd yn trafod yn fras effaith pwysau sicrhau adnoddau ar derfynau amser ar gyfer cyflwyno archwiliadau, a oedd wedi'u hystyried. Esboniodd yr EDAS, er nad oedd terfynau amser estynedig wedi cael derbyniad da gan rai cleientiaid roedd hyn yn ddull o weithredu realistig ac wedi helpu i gynnal ansawdd archwilio. Roedd hi'n datblygu llinell amser i ail-alinio terfynau amser archwilio yn ystod y tair blynedd nesaf a byddai'r Archwilydd Cyffredinol yn ysgrifennu at gyrrff archwiliedig i esbonio'r llinellau amser hynny ac ynghylch y cynnydd mewn ffioedd. Byddai'r EDAS hefyd yn ysgrifennu at Gyfarwyddwyr Cyllid i gynnig cyfarfodydd wyneb yn wyneb i drafod y materion hyn.	
5.4	Nododd y Bwrdd yr adroddiad.	
6	Y Diweddaraf gan y Cadeirydd	
6.1	Cyflwynodd y Cadeirydd ei hadroddiad ysgrifenedig yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ei gweithgarwch ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd.	
6.2	Gadawodd Adam Marshall a Darren Griffiths y cyfarfod.	
6.3	Esboniodd y Cadeirydd ei bod wedi arfer camau'r Cadeirydd i gymeradwyo fersiwn wedi'i chywiro o'r Cynllun Ffioedd 2023-24 ar gyfer ei gosod. Yn unol â Chylch Gorchwyl y Bwrdd cadarnhaodd y Bwrdd gamau'r Cadeirydd ar gyfer cofnodion y cyfarfod.	
6.4	Nododd y Bwrdd yr adroddiad.	
7	Adroddiad gan y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol	
7.1	Gadawodd Anne Beegan, Ann-Marie Harkin, Anne-Louise Clark, Gareth Lucey, Helen Goddard, Jo Austin a Mark Jeffs y cyfarfod.	
7.2	Golygwyd: ymdriniwyd â'r eitem yn ymwneud â'r strategaeth gyflog ar gyfer 2023-24 yn breifat oherwydd y gwrthdaro buddiannau a ddatganwyd gan aelodau-gyflogai a staff oedd yn bresennol.	
7.3	Golygwyd	
7.4	Golygwyd	
7.5	Golygwyd	
7.6	Golygwyd	
7.7	Ailymunodd Adam Marshall, Darren Griffiths, Anne Beegan, Ann-Marie Harkin, Anne-Louise Clark, Gareth Lucey, Helen Goddard, Jo Austin a Mark Jeffs â'r cyfarfod.	
7.8	Esboniodd Cadeirydd y Pwyllgor y dull a fabwysiadwyd i ddiweddarau'r Polisi Recriwtio a Dethol gan amlinellu'r pwyntiau	

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Cofnodion cyfarfod dydd Iau 16 Chwefror 2023

Eitem	Cofnodion	Cam Gweithredu
	allweddol a ystyriwyd gan y Pwyllgor. Yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor cymeradwyodd y Bwrdd y Polisi Recriwtio a Dethol.	
7.9	Nododd y Bwrdd yr adroddiad.	
8	Adroddiad gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg	
8.1	Cyflwynodd yr UGA adroddiad cyfarfodydd y Pwyllgor ar 13 Rhagfyr 2022 a 27 Ionawr 2023. Yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr roedd y Pwyllgor wedi ystyried adolygiad archwiliad mewnol o reolaethau ariannol allweddol ac roedd yn fodlon, er y cafwyd argymhellion cryf, defnyddiol, roedd prosesau a oedd yn bodoli eisoes yn gadarn ac yn elwa ar weithredu'r system TRM. Roedd y Pwyllgor wedi derbyn yr adolygiad o wybodaeth rheoli perfformiad mewn cyfarfod ychwanegol a gynhaliwyd ym mis Ionawr ac roedd wedi ei galonogi unwaith eto gan adroddiadau o fanteision y system TRM i'r sefydliad ehangach.	
8.2	Amlygodd yr UGA fod y Pwyllgor yn fodlon gyda dull gweithredu newydd yr Archwilwyr Mewnol ac ansawdd eu hadroddiadau, ond roedd wedi codi pryder ynghylch amseru o ran cyflawni. Cadarnhaodd yr EDCC y byddai'r ddau adroddiad sy'n weddill ar gyfer 2022-23 yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mehefin a'i fod yn gweithio gyda'r Archwilwyr Mewnol i gynllunio ac i drefnu'r rhaglen ar gyfer 2023-24.	
8.3	Nododd y Bwrdd fod trafodaeth werthfawr y Pwyllgor ar sero net yn rhoi sicrwydd bod gan Archwilio Cymru gynlluniau realistig i weithio tuag at yr uchelgais sero net, gan gydnabod yr heriau a wynebwyd a'r angen i gynnwys ac i ymgysylltu â staff.	
8.4	Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd mewn cysylltiad â strategaeth y Gymraeg, esboniodd yr UGA fod y Pwyllgor wedi ystyried y strategaeth o safbwynt risg, roedd yn gefnogol i'r uchelgais a adlewyrchir yn y Strategaeth a'r Cynllun Blynyddol ond roedd yn cydnabod bod angen canolbwyntio ar unwaith ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Fe wnaeth yr EDCC y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • sicrhau'r Bwrdd y byddai uchelgeisiau a chanlyniadau'r strategaeth yn cael eu dilyn ochr yn ochr â chydymffurfio â safonau'r Gymraeg ac nid yn ddilyniannol; • atgoffa'r Bwrdd fod y strategaeth yn cwmpasu nifer o flynyddoedd ac roedd gweithgor gan gynnwys aelodau'r Bwrdd yn edrych ar sut i greu a datblygu diwylliant o ddwyieithrwydd pryd y gallai staff ddefnyddio eu dewis iaith. Gofynnodd y Bwrdd i aelodau'r Bwrdd ar y gweithgor ystyried rôl y Bwrdd o ran uchelgais Archwilio Cymru i fod yn sefydliad dwyieithog a rhoi diweddariad i'r Bwrdd.	DG / EG
8.5	Nododd y Bwrdd yr adroddiad.	
9	Cynllun Blynyddol Drafft a Dangosyddion Perfformiad Allweddol	

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Cofnodion cyfarfod dydd lau 16 Chwefror 2023

Eitem	Cofnodion	Cam Gweithredu
9.1	Cyflwynodd Rheolwr y Rhaglen Newid y Cynllun Blynyddol drafft terfynol ar gyfer 2023-24 gan amlinellu'r newidiadau a wnaed i ystyried adborth cynharach.	
9.2	<p>Gofynnodd y Bwrdd am eglurder ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y Cynllun Blynyddol yn sgil trafodaethau blaenorol pan ofynnodd y Bwrdd i'r rheolwyr ystyried datblygu pa un a oedd Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn seiliedig ar ganlyniadau yn dangos effaith gwaith yr Archwilydd Cyffredinol. Esboniodd yr EDCC y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • roedd hi wedi adolygu'r fethodoleg a ddefnyddir gan sefydliadau eraill ac nid oedd yn cyd-fynd yn dda â swyddogaethau SAC a'r Archwilydd Cyffredinol; • nododd yr adolygiad archwilio mewnol o reoli perfformiad fod y gyfres bresennol o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yn y cynllun blynyddol yn gweithredu'n effeithiol ac fe argymhellodd ddatblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol mewnol er mwyn datblygu'r cysylltiad rhwng cynlluniau busnes mewnol, y strategaeth pum mlynedd a'r Cynllun Blynyddol; • roedd ymgysylltu â rhanddeiliaid annibynnol ar y gweill a fyddai'n darparu data allweddol ynghylch canfyddiadau'r cyhoedd a gwybodaeth feintiol fanylach gan gyrff archwilio, a byddai hyn yn darparu llinell sylfaen er mwyn monitro a mesur effaith yn haws trwy Ddangosyddion Perfformiad Allweddol wedi'u hymestyn; • Roedd y rheolwyr hefyd yn cydnabod gwerth defnyddio astudiaethau achos i ddangos effaith allanol ac ysbrydoli staff i deimlo balchder yng ngwaith Archwilio Cymru. 	
9.3	Roedd y Bwrdd yn fodlon y byddai ymgysylltu â rhanddeiliaid annibynnol yn darparu llinell sylfaen ar gyfer mesur effaith ac roedd yn awyddus i sicrhau bod y data'n cael ei ddefnyddio i ddatblygu mesurau addas y gellid mesur cynnydd o'i gymharu â nhw. Byddai'r EDCC yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ar ganlyniadau'r ymgysylltu â rhanddeiliaid a sut y byddai'r canlyniadau hyn yn troi'n llinell sylfaen ar gyfer Dangosydd Perfformiad Allweddol yn y dyfodol y byddai cynnydd yn cael ei fesur dros gyfnod o amser o'i gymharu â hi. Byddai grŵp cynllunio'r Bwrdd yn ystyried yr amserlen ar gyfer rhoi'r diweddiariad i'r Bwrdd.	<p style="text-align: center;">EDCC</p> <p>Ysgrifennydd y Bwrdd</p>
9.4	Nododd y Bwrdd y byddai ymgysylltu annibynnol â rhanddeiliaid yn cael ei ailadrodd yn 2026, a byddai'r dull gweithredu traddodiadol sef cael Cyfarwyddwyr Ymgysylltu i gasglu adborth yn cael ei fabwysiadu yn y cyfnod cyfamserol. Roedd y Bwrdd yn fodlon bod y cyfuniad o fesurau mewnol a Dangosyddion Perfformiad Allweddol allanol yn darparu cyfres gref o fesurau perfformiad. Nododd y Bwrdd hefyd y gwaith a oedd ar y gweill i gofnodi ac o bosib monitro cynnydd o'i gymharu ag argymhellion a wnaed yn adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol.	

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Cofnodion cyfarfod dydd lau 16 Chwefror 2023

Eitem	Cofnodion	Cam Gweithredu
9.5	Bu'r Bwrdd yn trafod naratif y Cynllun Blynyddol drafft a gwnaeth awgrymiadau i fireinio a gwella'r cynnwys a'r strwythur, y byddai Rheolwr y Rhaglen Newid yn eu hystyried wrth gwblhau'r ddogfen ar gyfer cymeradwyaeth y Bwrdd.	Rheolwr Rhaglen Newid
9.6	Nododd y Bwrdd y drafft wedi'i ddiweddarau a diolchodd i'r staff a gymerodd ran yn y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Blynyddol drafft.	
10	Adroddiad Perfformiad Integredig	
10.1	Cyflwynodd yr EDCC bapur oedd yn darparu diweddariad perfformiad chwarter tri sy'n cwmpasu'r meysydd canolbwynt presennol ar gyfer y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol (TAG), risgiau strategol allweddol, y sefyllfa ariannol hyd at ddiwedd Rhagfyr a chyflawniad o'i gymharu â Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cynllun blynyddol a'r strategaeth pum mlynedd.	
10.2	Fe wnaeth y Pennaeth Cyllid roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y sefyllfa ariannol hyd at ddiwedd Ionawr 2023. Esboniodd fod gwariant yn ôl y disgwyl ond bod lefelau incwm yn is na'r hyn a ragwelwyd a'u bod yn cael eu monitro'n wythnosol. Cadarnhaodd yr EDAS fod camau cadarnhaol yn cael eu cymryd i ganolbwyntio ymdrechion ar gyflawni incwm am weddill y flwyddyn ariannol. Roedd hi'n disgwyl y byddai'r system TRM yn cefnogi prosiect mwy effeithiol a rheoli cyllidebau yn y dyfodol.	
10.3	Roedd y Bwrdd yn awyddus i ddeall y rhesymau y tu ôl i gyflawni incwm is na'r hyn a ragwelwyd, gan nodi effaith prosiectau'n gor-reddeg ac nad oedd modd gwneud penderfyniadau ar falansau prosiect nes bod prosiect wedi cau. Bu'r Bwrdd yn trafod yn fyr y gwelliannau a ddisgwylir gan y system TRM, gan nodi y byddai angen newidiadau diwylliannol a gweithredol i wella'r dull o filio. Gofynnodd y Bwrdd i'r Pennaeth Cyllid gynnwys gwybodaeth am ostyngiadau mewn diweddariadau ariannol yn y dyfodol.	Pennaeth Cyllid
10.4	Mynegodd y Bwrdd ei bryder ynghylch cyflawni digon o incwm i gyflawni'r gyllideb ddiwedd y flwyddyn, gan gymryd rhywfaint o sicrwydd o'r gwaith sydd ar y gweill i gyflawni incwm. Roedd y Bwrdd hefyd yn awyddus i ddeall beth fyddai'n cael ei wneud i wella prosesau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn osgoi ailadrodd.	
10.5	Nododd y Bwrdd yr adroddiad perfformiad integredig.	
11	Contract Monitro Ansawdd Archwilio	
11.1	Cyflwynodd Rheolwr Archwilio Perfformiad DaChA bapur yn amlinellu proses a chanlyniad ymarfer caffael ar gyfer ail-dendro'r contract ansawdd archwilio. Esboniodd fod y gronfa o gyflenwyr posib yn fach a dim ond un cais oedd wedi ei dderbyn, gan y darparwr presennol. Roedd y cais wedi sgorio'n dda ac roedd y pris, a oedd wedi'i feincnodi'n allanol, yn darparu rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer gwasanaethau ychwanegol pe bai angen. Roedd yr ELT yn fodlon gydag ansawdd a gwasanaeth y ddarpariaeth o dan y contract	

Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
Cofnodion cyfarfod dydd lau 16 Chwefror 2023

Eitem	Cofnodion	Cam Gweithredu
	presennol ac roedd wedi argymhell bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r contract.	
11.2	Roedd y Bwrdd yn fodlon bod proses drylwyr wedi'i dilyn, a chymeradwyodd ddyfarnu'r contract ansawdd archwilio i'r Adran Sicrhau Ansawdd (QAD) Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr (ICAEW) am gyfnod o bedair blynedd yn dechrau pan ddeuai'r contract presennol i ben.	
12	Unrhyw fusnes arall	
12.1	Esboniodd y Prif Weithredwr fod cyfarfod nesaf y Bwrdd wedi'i drefnu i ddigwydd ar yr un pryd â chyfarfod Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd, a hoffai fynd i'r ddau gyfarfod pe bai hynny'n ymarferol. Byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn archwilio opsiynau ynghylch amseru a/neu agenda ar gyfer cyfarfod y Bwrdd.	Ysgrifennydd y Bwrdd
13	Adolygiad o'r flaenraglen waith	
13.1	Mewn ymateb i gwestiwn cadarnhaodd yr EDCS fod disgwyl i'r Cynllun Teithio drafft gael ei ystyried gan Fwrdd y Rhaglen Newid yn fuan a byddai'n cysylltu ag Ysgrifennydd y Bwrdd i drefnu ymgynghori â'r Bwrdd neu i ymwneud â'i gymeradwyo fel y bo'n briodol gan fod hwn yn allbwn sy'n deillio o'r adolygiad Teithio a Chynhaliaeth. Fel arall, nododd y Bwrdd ei flaenraglen waith a fyddai'n cael ei hadolygu'n gyson.	EDCS / Ysgrifennydd y Bwrdd
14	Adolygiad o'r cyfarfod	
14.1	Croesawodd y Bwrdd adborth gan yr arsyllwyr a wnaeth y sylwadau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • trafodaethau agored a thryloyw; • manylion a chanolbwynt y trafodaethau; • yr her gref a gynigir, gan groesawu ar yr un pryd, werthoedd ac ymddygiadau Archwilio Cymru; • cadeirio cyfarfod gyda threfniadau cymhleth yn effeithiol. 	
14.2	Gwnaeth aelodau'r bwrdd ac ELT y sylwadau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • gwerth yr hysbysiad ymlaen llaw am feysydd o bryder a oedd yn caniatáu darparu ymatebion defnyddiol a helpu i gael y gorau o'r cyfarfod; • y papur eglur a oedd wedi ei ddrafftio'n dda ar y contract ansawdd archwilio; • defnyddio'r data yn yr adroddiad perfformiad integredig yn effeithiol i lywio trafodaethau'r Bwrdd, gan gydnabod bod trafodaeth am risgiau strategol cyfredol yn aml yn dod i'r amlwg drwy drafod papurau eraill. 	
15	Dyddiad y cyfarfod nesaf	
15.1	Cyfarfod busnes: Dydd Mercher 15 Mawrth 2023	